OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M48 (Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse), Cas-gwent, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2020

*Gwnaed* *6 Mai 2020*

*Yn dod i rym* *11 Mai 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd yr M48, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M48 (Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse), Cas-gwent, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 11 Mai 2020.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2020 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The M48 Motorway (Junction 2 (Newhouse Interchange), Chepstow, Monmouthshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2020

*Made* *6 May 2020*

*Coming into force* *11 May 2020*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant lengths of the M48 Motorway, are satisfied that traffic on specified lengths of the motorway should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Title, Commencement and Interpretation**

**1.** The title of this Order is the M48 Motorway (Junction 2 (Newhouse Interchange), Chepstow, Monmouthshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2020 and it comes into force on 11 May 2020.

**2.** In this Order—

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 19:00 o’r gloch ar 11 Mai 2020 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o’r gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y draffordd” (“*the motorway*”) yw Traffordd yr M48 Llundain i Abergwaun.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r draffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 6 Mai 2020

*Nicci Hunter*
Arweinydd Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

“the motorway” (*“y draffordd”)* means the M48 London to Fishguard Motorway;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 19:00 hours on 11 May 2020 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

**Prohibition**

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the motorway specified in the Schedule to this Order.

**Application**

**4.** The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**5.** The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 6 May 2020

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

## YR ATODLEN
## Gwahardd Cerbydau Dros Dro

1. Y darn o gerbytffordd tua’r gorllewin yr M48 sy’n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua’r gorllewin wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse) hyd at drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua’r gorllewin wrth y Gyffordd honno.

## SCHEDULE
## Temporary Prohibition of Vehicles

1. The length of the M48 westbound carriageway that extends from the nosing of the westbound exit slip road at Junction 2 (Newhouse Interchange) to the physical nosing of the westbound entry slip road at that Junction.

2. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr M48 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse) hyd at drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth y Gyffordd honno.

3. Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r gorllewin yr M48 wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse).

4. Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gorllewin yr M48 wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse).

5. Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r dwyrain yr M48 wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse).

6. Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr M48 wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse).

7. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr M48 sy'n ymestyn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse), a chan gynnwys y ffordd ymuno honno, hyd at bwynt 47 o fetrau i'r gorllewin o'r cymal mecanyddol ym mhen gorllewinol Pont Hafren yr M48.

**GORCHYMYN TRAFFORDD YR M48 (CYFFORDD 2 (CYFNEWIDFA NEWHOUSE), CAS-GWENT, SIR FYNWY) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar draffordd yr M48, neu gerllaw iddi, wrth Gyffordd 2, Cas-gwent yn Sir Fynwy.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol yn ysbeidiol dros nos rhwng 19:00 o'r gloch a 06:00 o'r gloch o 11 Mai 2020 hyd 1 Mehefin 2020 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith

2. The length of the M48 eastbound carriageway that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Junction 2 (Newhouse Interchange) to the physical nosing of the eastbound entry slip road at that Junction.

3. The entire length of the M48 westbound exit slip road at Junction 2 (Newhouse Interchange).

4. The entire length of the M48 westbound entry slip road at Junction 2 (Newhouse Interchange).

5. The entire length of the M48 eastbound exit slip road at Junction 2 (Newhouse Interchange).

6. The entire length of the M48 eastbound entry slip road at Junction 2 (Newhouse Interchange).

7. The length of the M48 eastbound carriageway that extends from and including the eastbound entry slip road at Junction 2 (Newhouse Interchange) to a point 47 metres west of the mechanical joint located at the western end of the M48 Severn Bridge.

**M48 MOTORWAY (JUNCTION 2 (NEWHOUSE INTERCHANGE), CHEPSTOW, MONMOUTHSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2020**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the M48 motorway at Junction 2, Chepstow in the County of Monmouthshire.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on the lengths of the motorway specified in the Schedule to this Notice. The alternative routes are also described in that Schedule.

It is expected that the prohibition, which will be signed accordingly, will operate intermittently overnight between 19:00 hours and 06:00 hours from 11 May 2020 until 1 June 2020 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

canlyniadol. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**YR ATODLEN**
**Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Llwybrau Eraill**

1. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin yr M48 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse) hyd at drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth y Gyffordd honno.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin yw ymadael â'r gerbytffordd wrth Gyffordd 2 ac wrth y gylchfan cymryd yr ail allanfa er mwyn ailymuno â'r M48 tua'r gorllewin.

2. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr M48 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse) hyd at drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth y Gyffordd honno.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain yw ymadael â'r gerbytffordd wrth Gyffordd 2 ac wrth y gylchfan cymryd y drydedd allanfa er mwyn ailymuno â'r M48 tua'r dwyrain.

3. Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r gorllewin yr M48 wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse).

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin sy'n dymuno ymadael â'r gerbytffordd fydd parhau tua'r gorllewin hyd at Gyffordd 23 (Rogiet) ac ymuno â thraffordd yr M4 tua'r gorllewin hyd at Gyffordd 23A (Magwyr), ymadael

**SCHEDULE**
**Temporary Prohibition of Vehicles & Alternative Routes**

1. The length of the M48 westbound carriageway that extends from the nosing of the westbound exit slip road at Junction 2 (Newhouse Interchange) to the physical nosing of the westbound entry slip road at that Junction.

The alternative route for westbound traffic is to exit the carriageway at Junction 2 and at the roundabout take the second exit to re-join the M48 westbound.

2. The length of the M48 eastbound carriageway that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Junction 2 (Newhouse Interchange) to the physical nosing of the eastbound entry slip road at that Junction.

The alternative route for eastbound traffic is to exit the carriageway at Junction 2 and at the roundabout take the third exit to re-join the M48 eastbound.

3. The entire length of the M48 westbound exit slip road at Junction 2 (Newhouse Interchange).

The alternative route for westbound traffic wishing to exit the carriageway will continue westbound to Junction 23 (Rogiet) and join the M4 motorway westbound to Junction 23A (Magor), there exit and return on the M4 and M48 eastbound to Junction 2.

yno a dychwelyd ar yr M4 a'r M48 tua'r dwyrain hyd at Gyffordd 2.

4. Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gorllewin yr M48 wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse).

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin o Gyffordd 2 fydd teithio tua'r dwyrain ar yr M48 hyd at Gyffordd 1 (Aust) ac ailymuno â'r M48 tua'r gorllewin.

5. Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r dwyrain yr M48 wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse).

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain sy'n dymuno ymadael â'r gerbytffordd fydd parhau tua'r dwyrain hyd at Gyffordd 1 (Aust) a dychwelyd tua'r gorllewin er mwyn ymadael â'r gerbytffordd wrth Gyffordd 2.

6. Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr M48 wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse).

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain o Gyffordd 2 fydd teithio tua'r gorllewin ar yr M48 a'r M4 hyd at Gyffordd 23A (Magwyr) yna ymuno â'r M4 tua'r dwyrain hyd at Gyffordd 23 (Rogiet) ac ailymuno â'r M48 tua'r dwyrain.

7. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr M48 sy'n ymestyn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse), a chan gynnwys y ffordd ymuno honno, hyd at bwynt 47 o fetrau i'r gorllewin o'r cymal mecanyddol ym mhen gorllewinol Pont Hafren yr M48.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain sy'n dymuno teithio ar yr M48 hyd at Gyffordd 1 (Aust) fydd dilyn y llwybr dargyfeirio uchod hyd at Gyffordd 23A (Magwyr), yna dychwelyd tua'r dwyrain ar yr M4 gan ddefnyddio Pont Tywysog Cymru ac ailymuno â'r M48 tua'r gogledd hyd at Gyffordd 1.

4. The entire length of the M48 westbound entry slip road at Junction 2 (Newhouse Interchange).

The alternative route for westbound traffic from Junction 2 will be eastbound on the M48 to Junction 1 (Aust) and re-join the M48 westbound.

5. The entire length of the M48 eastbound exit slip road at Junction 2 (Newhouse Interchange).

The alternative route for eastbound traffic wishing to exit the carriageway will continue eastbound to Junction 1 (Aust) and return westbound to exit the carriageway at Junction 2.

6. The entire length of the M48 eastbound entry slip road at Junction 2 (Newhouse Interchange).

The alternative route for eastbound traffic from Junction 2 will be westbound on the M48 and M4 to Junction 23A (Magor) then join the M4 eastbound to Junction 23 (Rogiet) and re-join the M48 eastbound.

7. The length of the M48 eastbound carriageway that extends from and including the eastbound entry slip road at Junction 2 (Newhouse Interchange) to a point 47 metres west of the mechanical joint located at the western end of the M48 Severn Bridge.

The alternative route for eastbound traffic wishing to travel on the M48 to Junction 1 (Aust) will follow the diversion route above to Junction 23A (Magor), then return eastbound on the M4 using the Prince of Wales Bridge and re-join the M48 northbound to Junction 1.